

# PROFFIL WARD LLWCHWR: EBRILL 2025

**Cynghorwyr** (Pleidlais etholiadol, Mai 2022): Kelly Roberts (Labour – 1,884); Robert Smith (Labour – 1,790); Adam Davis (Labour – 1,741). *Y ganran a bleidleisiodd = 40%. Etholwyr: 7,686.*




- **Lleoliad**: Oddeutu 7 cilometr i'r gogledd-orllewin o ganol y ddinas, sydd yn bennaf yn cynnwys ardaloedd Llwchwr, Pontybrenin a Phentre'r Ardd.
- **Wardiau cyfagos**: Gorseinon a Phenyrheol, Penlle'r-gaer, Y Cocyd, Waunarlwydd, Tregŵyr.
- **Adolygiad o ward etholiadol 2022**: Wedi newid – mae'r ward etholiadol newydd yn cynnwys hen wardiau etholiadol Pontybrenin, Casllwchwr Isaf a Chasllwchwr Uchaf.
- **Ardaloedd Etholaethol**: Gŵyr (Senedd Cymru a Senedd y DU hyd at fis Gorffennaf 2024) / Gŵyr (Senedd y DU o fis Gorffennaf 2024).
- **Poblogaeth** (Amcangyfrif Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i dalgrynnu, canol 2022): 9,300.
- **Ardal**: 7.4 km². **Dwysedd poblogaeth**: 1,262 pobl fesul km² (SYG, 2022).
- **Gweithwyr** (wardiau flaenorol*, amcangyfrif y gweithle SYG, 2023): 1,500. Prif gyflogwyr: Coleg Gŵyr Abertawe (Gampws Gorseinon), Ty Garngoch, CEM Day, Cyngor Abertawe (ysgolion). [* Sylwer: mae'r ffigur yn cyfuno hen wardiau Pontybrenin, Llwchwr Isaf a Llwchwr Uchaf]

## Nodweddion, cyfleusterau ac ardaloedd lleol ward:



## YNGHYLCH Y WARD


Gellir olrhain anheddiad Casllwchwr yn ôl i ddiwydiant codi glo cynnar Abertawe, gyda glofeydd a ffowndri haearn gerllaw yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 18fed ganrif a gwaith tunplat Dewi Sant ar ddiwedd y 19eg ganrif. Roedd adeiladu'r bont barhaol ar draws yr aber ym 1923 wedi gwneud Casllwchwr yn ganolbwynt, gan gysylltu Abertawe â Llanelli. Ehangwyd yr anheddiad ymhellach yn sgîl hyn Mae rhai o'r tai gweithwyr gwreiddiol yn dal i fod yn yr ardal yn agos at yr aber, ond mae datblygiad mwy modern wedi digwydd i fyny o'r afon, gan gynnwys ardal sylweddol o dai'r awdurdod lleol ar ôl y rhyfel, blociau o lety lloches, stad o dai o'r 1970au a datblygiadau a adeiladwyd yn fwy diweddar.

Tyfodd anheddiad Pontybrenin o amgylch pyllau glo a gweithfeydd tunplat niferus yr ardal, ond ni chafodd ei ddatblygu i raddau helaeth tan droad yr 20fed ganrif. Erbyn 1914, roedd y gwaith i adeiladu Pentref yr Ardd wedi dechrau, gyda thai pâr tair ystafell wely'n bennaf, ac erbyn diwedd y 1930au roedd wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Yn fwy diweddar, mae rhagor o dai wedi cael eu hadeiladu ym Mhontybrenin, yn fwyaf diweddar ar safle hen Lofa Cae Duke, a ailddatblygwyd i ddarparu tai cymysg modern ar ddiwedd y 1990au.

## YSTADEGAU POBLOGAETH AC AELWYDYDD

### *Amcangyfrifon poblogaeth (2022)*

| Poblogaeth | Llwchwr | | Abertawe |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | % | % |
| **Oed**: 0-4 | 455 | 4.9 | 4.7 |
| 5-15 | 1,211 | 13.0 | 12.3 |
| 16-24 | 756 | 8.1 | 13.1 |
| 25-44 | 2,361 | 25.3 | 24.7 |
| 45-64 | 2,351 | 25.2 | 24.8 |
| 65-74 | 1,156 | 12.4 | 10.5 |
| 75+ | 1,046 | 11.2 | 10.0 |
| **Cyfanswm** | **9,336** | 100 | 100 |
| Benyw | 4,766 | 51.0 | 50.5 |
| Gwryw | 4,570 | 49.0 | 49.5 |




*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bychain (canol 2022), SYG. Cyhoeddwyd 25 Tachwedd 2024.*

Sylwer: Mae ystadegau ward yn perthyn i Ardaloedd Cynnyrch (ACau) y Cyfrifiad a ddangosir ar y map cyfagos.

### *Crynodeb*

- Y 9fed boblogaeth ward leiaf yn Abertawe, a'r 15fed dwysedd poblogaeth isaf (2022).
- Cyfran is o bobl 16-24 oed.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl 65+ oed.
- Cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o bobl a aned yn y DU, ac sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Canran uwch o aelwydydd parau hŷn a phriod neu mewn partneriaeth sifil
- Cyfrannau uwch o dai ar wahân, tai pâr a thai wedi'u perchnogi.
- Canrannau ychydig yn uwch o oedolion sy'n weithgar yn economaidd, gweithwyr a'r rheini sydd wedi ymddeol.

## *Nodweddion poblogaeth*

| **Pobl**: | Llwchwr | % | Abertawe % |
|---|---|---|---|
| a aned yn y DU | 9,018 | 97.5 | 90.6 |
| a aned y tu allan i'r DU | 235 | 2.5 | 9.4 |
| mewn grŵp ethnig heb fod yn wyn | 180 | 1.9 | 8.6 |
| sy'n gallu siarad Cymraeg (3+ oed) | 1,441 | 16.0 | 11.2 |
| mewn iechyd da | 7,463 | 80.7 | 78.7 |
| sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | 1,874 | 20.3 | 22.4 |
| â chymwysterau Lefel 4+ (16+ oed) | 2,494 | 32.8 | 32.8 |
| heb gymwysterau (16+ oed) | 1,177 | 15.5 | 18.9 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tablau TS004, TS021, TS033, TS037, TS038, TS067).*

## *Cyfansoddiad aelwydydd*

| | Llwchwr | % | Abertawe % |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm aelwydydd** / (Maint cyfartalog aelwyd) | **4,051** | (2.28) | (2.22) |
| **Cyfansoddiad**: Un person: 66+ oed | 643 | 15.9 | 14.5 |
| Arall | 568 | 14.0 | 19.9 |
| Aelwyd teulu sengl Pob un yn 66+ oed | 486 | 12.0 | 9.5 |
| Pâr priod neu mewn partneriaeth sifil | 1,317 | 32.5 | 26.8 |
| Teulu pâr sy'n cyd-fyw | 449 | 11.1 | 10.4 |
| Teulu unig riant | 435 | 10.7 | 12.6 |
| Aelwyd teulu sengl arall | 12 | 0.3 | 0.7 |
| Mathau eraill o aelwydydd | 141 | 3.5 | 5.6 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tabl TS003).*

## TAI: *Math a deiliadaeth*

| Math o lety | Llwchwr | % | Abertawe % |
|---|---|---|---|
| Ar Wahân | 1,222 | 30.2 | 24.0 |
| Pâr | 1,944 | 48.0 | 34.5 |
| Teras (gan gynnwys pen teras) | 545 | 13.5 | 25.4 |
| Fflat neu fflat ddeulawr | 338 | 8.3 | 15.9 |
| Carafán neu gartref teithiol/dros dro arall | 0 | 0.0 | 0.2 |

| Daliadaeth | Llwchwr | % | Abertawe % |
|---|---|---|---|
| **Aelwydydd: Wedi'i berchnogi**: Yn llwyr | 1,743 | 43.0 | 35.4 |
| Wedi'i berchnogi gyda morgais neu fenthyciad | 1,449 | 35.8 | 26.9 |
| **Aelwydydd: Wedi'u rhentu**: Rhentu cymdeithasol; gan y cyngor | 307 | 7.6 | 11.7 |
| Rhentu cymdeithasol; Arall (gan gynnwys Cymdeithasau Tai) | 109 | 2.7 | 7.4 |
| Rhentu preifat | 423 | 10.4 | 18.0 |
| Arall (gan gynnwys perchnogaeth a rennir, byw yn ddi-rent) | 20 | 0.5 | 0.6 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tablau TS044, TS054).*

## GWEITHGARWCH ECONOMAIDD

| Pobl 16 oed ac yn hŷn: | Llwchwr | % | Abertawe % |
|---|---|---|---|
| **Yn economaidd weithgar** | **4,456** | **58.7** | **54.3** |
| Gweithwyr: Rhan-amser ac amser llawn | 3,691 | 48.6 | 42.2 |
| Hunangyflogedig | 457 | 6.0 | 6.4 |
| Di-waith | 139 | 1.8 | 2.5 |
| Myfyriwr sy'n economaidd weithgar | 169 | 2.2 | 3.3 |
| **Economaidd anweithgar** | **3,139** | **41.3** | **45.7** |
| Wedi ymddeol | 2,159 | 28.4 | 23.9 |
| Myfyriwr | 279 | 3.7 | 8.4 |
| Gofalu am y cartref neu deulu | 223 | 2.9 | 4.2 |
| Sâl neu anabl yn y tymor hir | 345 | 4.5 | 6.3 |
| Arall | 133 | 1.8 | 2.9 |


*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, SYG (Tabl TS066)*

## MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALIC)

- MALIC 2019 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) 2011 - yn y proffil hwn, mae'r ardal yn cynnwys chwe ACEHI.

Mynegai uchaf a safleoedd parthau (Cymru):

- Llwchwr 4 (Llw 4) – Cyflogaeth (3ydd degradd), Incwm, Iechyd (4ydd degradd).
- Llwchwr 6 (Llw 6) – Addysg, Tai (5ed degradd).
- Llwchwr 5 (Llw 5) – Amgylchedd Ffisegol (5ed degradd).




| ACEHI | Mynegai cyffredinol | | Parthau: Incwm | | Cyflogaeth | | Iechyd | | Addysg | | Mynediad at Wasanaethau | | Tai | | Diogelwch Cymunedol | | Amgylchedd Ffisegol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llw 1** | **94** | **1469** | 84 | 1163 | 81 | 1069 | 89 | 1115 | 102 | 1539 | 81 | 1234 | 97 | 1423 | 120 | 1642 | 92 | 1372 |
| **Llw 2** | **139** | **1851** | 144 | 1869 | 126 | 1650 | 112 | 1541 | 114 | 1648 | 97 | 1411 | 141 | 1819 | 135 | 1761 | 138 | 1759 |
| **Llw 3** | **109** | **1636** | 113 | 1584 | 99 | 1270 | 108 | 1440 | 96 | 1413 | 105 | 1500 | 73 | 1143 | 102 | 1381 | 94 | 1408 |
| **Llw 4** | **70** | **966** | 59 | 718 | 45 | 570 | 58 | 714 | 87 | 1309 | 78 | 1149 | 108 | 1557 | 70 | 955 | 126 | 1695 |
| **Llw 5** | **99** | **1530** | 99 | 1497 | 98 | 1268 | 88 | 1110 | 93 | 1389 | 84 | 1263 | 84 | 1248 | 104 | 1401 | 47 | 898 |
| **Llw 6** | **89** | **1330** | 83 | 1154 | 82 | 1107 | 92 | 1170 | 66 | 941 | 76 | 1118 | 54 | 893 | 97 | 1297 | 140 | 1782 |

*Ffynhonnell: MALIC 2019 (cyhoeddwyd Tachwedd 2019), Llywodraeth Cymru.*
Sylwer: ACEHIau safleoedd **1-148** (Abertawe), **1-1909 (Cymru)**.

**Sylwer:** Bydd y cynnwys yn y proffil hwn yn cael ei ddatblygu wrth i ragor o ddata wardiau ddod ar gael.

Mae'r defnydd o ddata arolwg Ordnans yn y ddogfen hon yn destun amodau a thelerau – www.abertawe.gov.uk/trwyddedos